



rhondda cynon taf
community infrastructure levy

ardoll seilwaith cymunedol

(ASC)

Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'i diwygiwyd)

Rheoliad 62

Adroddiad Monitro 2017/18

Rheoliad 62 – Adroddiad Monitro 2017/18

Cefndir

Daeth Ardoll Seilwaith Cymunedol Cyngor Rhondda Cynon Taf (“y Cyngor”) i rym ar 31 Rhagfyr 2014. Mae'r Cyngor yn Awdurdod Codi Tâl ac yn Awdurdod Casglu Taliadau o ran yr Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae rheoliad 62 o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Codi Tâl baratoi adroddiad blynyddol sy'n manylu ar incwm a gwariant o ran Ardoll Seilwaith Cymunedol. Dyma drydydd adroddiad blynyddol Cyngor Rhondda Cynon Taf sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018.

Dyrannu Ardoll Seilwaith Cymunedol

Mae'n ofynnol dyrannu incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol fel a ganlyn:

- Mae modd defnyddio hyd at 5% o Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer gweithredu a gwaith gweinyddu parhaus.
- Mae 15% o Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei roi i'r Cyngor Tref/Cymuned mae'r datblygiad a dalodd yr Ardoll wedi ei leoli y tu mewn i'w ffiniau, er mwyn darparu gwaith gwella seilwaith lleol neu fesurau eraill ar gyfer helpu datblygu'r ardal (rydyn ni'n cyfeirio ato fel Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol).
- Mae 80% o Ardoll Seilwaith Cymunedol i'w ddefnyddio ar gyfer seilwaith strategol i helpu ffyniant ardal yr Awdurdod Codi Tâl (rydyn ni'n cyfeirio ato fel Ardoll Seilwaith Cymunedol Strategol).

Cyfanswm incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol

Cyfanswm incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol yn 2017/18 oedd £127,813.32

Mae'r manylion am holl dderbyniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol, a sut maen nhw'n cael eu rhannu, i'w gweld yn Atodiad A.

Ardoll Seilwaith Cymunedol Strategol 80% (i'w gwario ar eitemau ar Restr Rheoliad 123)

Incwm Strategol yn 2017/18 oedd £102,950.39

Incwm Strategol wedi'i ddwyn ymlaen o 2016/17 oedd £291,828.84

Balans incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol Strategol oedd £394,779.23

Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol 15%

Incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol yn 2017/18 oedd £18,472.25

Mae 12 o ardaloedd Cyngor Tref/Cymuned yn Rhondda Cynon Taf, sef: Ffynnon Taf; Y Gilfach-goch; Hirwaun; Llanharan; Llanhari; Llanilltud Faerdref; Llantrisant; Pont-y-clun; Pontypridd; Y Rhigos; Tonyrefail; ac Ynys-y-bŵl.

Incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol (15% a oedd wedi'i drosglwyddo i Gyngorau Tref/Cymuned) a ddaeth i law rhwng 1 Ebrill 2017 a 30 Medi 2017 oedd £5,685.13. Cafodd hyn ei drosglwyddo i'r Cyngorau Tref/Cymuned perthnasol ym mis Hydref 2017.

Cafodd balans o £12,787.12 a ddaeth i law rhwng 1 Hydref 2017 a 31 Mawrth 2018 ei drosglwyddo i'r Cyngor Tref/Cymuned perthnasol ym mis Ebrill 2018.

Balans i ardaloedd heb Gyngor Tref/Cymuned yn 2017/18 oedd £2,218.36

Mae'r swm a gafodd ei drosglwyddo i bob Cyngor Tref/Cymuned wedi'i bennu yn Atodiad B.

Gwaith Gweinyddu 5%

Incwm Gwaith Gweinyddu yn 2017/18 oedd £6,390.68

Incwm Gwaith Gweinyddu wedi'i ddwyn ymlaen o 2016/17 oedd £18,209.91

Balans incwm Gwaith Gweinyddu oedd £24,600.59

Ardoll Seilwaith Cymunedol wedi'i dwyn ymlaen i 2018/19

Mae swm yr Ardoll Seilwaith Cymunedol sydd wedi'i ddwyn ymlaen i 2018/19 wedi'i bennu yn y tabl canlynol:

ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL WEDI'I DWYN YMLAEN	SWM
Ardoll Seilwaith Cymunedol Strategol	£394,779.23
Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol	£12,787.12 (cafodd ei dalu ym mis Ebrill 2018) Ardaloedd heb Gyngor Tref/Cymuned £2,218.36
Gwaith Gweinyddu Ardoll Seilwaith Cymunedol	£24,600.59

Atodiad B – INCWM ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL YN 2017/2018

Dyddiad dod i law	Cyfeirnod Cais Cynllunio	Cyfeiriad y safle	Ardoll Seilwaith Cymunedol – Math o ddatblygiad	Swm	Gwaith Gweinyddu	Strategol	Lleol (Cyngor Tref/ Cymuned)
27/04/17 a 21/07/17	16/0936	66 Lanelay Road, Tonysguboriau	Parth Preswyl 3	£10,232.02	£511.60	£8,185.62	£1,534.80
01/06/17	16/1345	Clinig Tonyrefail	Parth Preswyl 2	£3,542.09	£177.10	£2,833.68	£531.31
06/06/17	13/0633	Hen Orsaf yr Heddlu, rhwng 9 a 13 Heol Caerdydd, Ffynnon Taf	Parth Preswyl 3	£126.93	£6.35	£101.54	£19.04
15/09/17	16/0770	Ashgrove, Glyn- coch	Parth Preswyl 2	£22,217.57	£1,110.89	£17,854.52	£3,252.16
22/09/17	15/0455	19 Cefn Close, Glyn-coch	Parth Preswyl 2	£2,318.78	£115.94	£1,855.02	£347.82
25/10/17	17/0434	Clinig Tonyrefail	Parth Preswyl 2	£2,201.84	£110.09	£1,761.47	£330.28
14/11/17	14/1585	Tir ger Stryd Mount Stuart, Maesycoed	Parth Preswyl 2	£4,554.40	£227.73	£3,763.62	£563.05
01/12/17	16/0771	Hen Ysgol Feithrin Hirwaun	Masnach (A1)	£18,380.59	£919.03	£14,704.47	£2,757.09
10/01/18	14/1136	Plot 1 The Gables, Nantgarw	Parth Preswyl 3	£17,116.65	£855.84	£13,693.31	£2,567.50

15/01/18	17/0635	1 Heol Castellau, Y Beddau	Parth Preswyl 3	£2,715.80	£135.79	£2,172.64	£407.37
30/01/18	16/0723	Byngalo Rhyd Y Gofer, Heol Pen- y-bont ar Ogwr, Llanharan	Parth Preswyl 3	£13,731.66	£686.58	£11,334.83	£1,710.25
08/02/18	17/0562	Plot 1 (cyfnod 2A) Teras Duffryn, Tonyrefail	Parth Preswyl 2	£4,355.82	£217.79	£3,484.66	£653.37
26/02/18	15/0094	Tir yn 33 Glan Y Ffordd, Ffynnon Taf	Parth Preswyl 3	£5,736.74	£286.83	£4,739.07	£710.84
26/02/18	16/0771	Hen Ysgol Feithrin Hirwaun	Masnach (A1)	£18,380.59	£919.03	£14,704.47	£2,757.09
05/03/18	17/0434	Clinig Tonyrefail	Parth Preswyl 2	£2,201.84	£110.09	£1,761.47	£330.28

*Nodwch: O dan Reoliad 88, does dim hawl dyrannu gordaliadau i Gynghorau Tref/Cymuned, a rhaid eu hollti'n 5% at waith gweinyddu a 95% at seilwaith strategol.

Atodiad B – INCWM ASC SEILWAITH LLEOL CYNGHORAU TREF/CYMUNED

Cyngor Tref/Cymuned	15% sy wedi'i dderbyn yn 2017/18 i'w drosglwyddo i'r cyngor lleol	Swm sy wedi'i dalau ym mis Hydref 2017	Swm sy wedi'i dalau ym mis Ebrill 2018	Balans
Y Gilfach-goch	£0	£0	£0	£0
Hirwaun	£5,514.18	£0	£5,514.18	£0

Llanharan	£1,710.25	£0	£1,710.25	£0
Llanhari	£0	£0	£0	£0
Llantrisant	£1,942.17	£1,534.80	£407.37	£0
Llanilltud Faerdref	£0	£0	£0	£0
Pont-y-clun	£0	£0	£0	£0
Pontypridd	£4,163.03	£3,599.98	£563.05	£0
Y Rhigos	£0	£0	£0	£0
Ffynnon Taf	£3,297.38	£19.04	£3,278.34	£0
Tonyrefail	£1,845.24	£531.31	£1,313.93	£0
Ynys-y-bŵl	£0	£0	£0	£0
Ardal heb Gyngor Tref/Cymuned	£2,218.36 l'w wario yn Ward De Aberaman	Heb ei wario eto	Heb ei wario eto	£2,218.36